

## Transcript 1 - How Prevent Works

Mae Prevent yn cynnig rhaglen gefnogi, sy'n wirfoddol, ac yn gyfrinachol.

Mae awdurdodau lleol, yr heddlu, gweithwyr iechyd proffesiynol a phartneriaid eraill yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu pobl sy'n agored i gael eu radicaleiddio rhag cael eu hecsploetio gan ddylanwadau terfysgol.

Pan fyddwch chi'n estyn allan, byddwn ni'n asesu a oes risg.

Nid oes angen ein cefnogaeth ar bawb, ond mae ceisio cymorth yn gynnar yn golygu y gallwn weithio gyda'r asiantaethau eraill i atal pethau rhag gwaethygu.

Dim ond gyda phartneriaid sy'n ymwneud â helpu'r person sy'n destun pryder i chi y byddwn ni'n rhannu gwybodaeth.

Ac nid yw gwybodaeth a gedwir ynglŷn â chyfeirio rhywun yn gofnod troseddol ac ni fydd yn cael ei rhannu fel rhan o unrhyw wiriadau cofnodion troseddol.

Yn aml, nid oes angen i'r Heddlu barhau yn rhan o'r ymateb ac fe allai'r gefnogaeth iawn gael ei darparu gan athrawon, gan weithwyr iechyd neu gymdeithasol, neu gan fentoriaid arbenigol.

Ond os oes angen i ni wneud, byddwn ni'n camu i mewn.

Mae popeth a wnawn yn cael ei ystyried yn ofalus er mwyn eu cefnogi nhw.

Mae radicaleiddio yn broses gymhleth. Gall unrhyw un fod yn agored i gael eu tynnu i mewn, am sawl rheswm gwahanol.

Beth bynnag maen nhw wedi cael ei glymu i mewn iddo, fe weithiwn ni gyda'n gilydd i'w ddatod.

Rydyn ni yma i helpu. Fyddwch chi ddim yn gwastraffu ein hamser.

Ond gorau po gyntaf i chi gysylltu â ni er mwyn rhoi'r cyfle gorau i ni helpu.

Ac os nad ydych chi eisiau i ni wneud, wnawn ni ddim dweud wrth y person eich bod chi wedi'n galw ni.

Bob blwyddyn, rydyn ni'n cynorthwyo llawer o bobl i symud oddi ar y llwybr tuag at eithafiaeth dreisgar.

Mae'r rhan fwyaf wedi mynd yn eu blaenau i fyw bywydau llawnach a mwy cadarnhaol.

Ond mae'n bwysig i chi weithredu'n gynnar a dweud wrthon ni.

Gyda'n gilydd, gallwn newid pethau.

Os ydych chi'n poeni bod rhywun rydych chi'n ei nabod mewn perygl o gael eu radicaleiddio, gofynnwch am gyngor.

Fyddwch chi ddim yn difetha bywydau, ond gallech chi achub rhai.

Ewch i [actearly.uk](http://actearly.uk)

## Transcript 2 – Reach Out for Help

Dyn Ifanc:

Aethon nhw i mewn i fy mhen.

Ro'n nhw'n gwneud i fi deimlo bod rhywun yn gwrando arna i.

Ro'n nhw'n fy neall i.

Ro'n i'n teimlo'n rhan o rywbeth am y tro cyntaf... ..ac roedd yn deimlad da.

Ond do'n i ddim yn sylweddoli mai fy nefnyddio i ro'n nhw.

Mam:

Ro'n i'n gwybod bod rhywbeth yn bod arno fe.

Ro'n i'n teimlo bod fy myd yn chwalu... ..fel petawn i'n ei golli fe.

Ro'n i'n ofni beth allai ddigwydd iddo fe ac i ni... ..ond roedd angen i ni ganfod ffordd arall.

Felly, estynnais allan a gofyn am help.

Saba:

Rwy'n swyddog Prevent...

...arbenigwr sydd wedi'i hyfforddi i ddeall sut mae gwendid yn rhywun yn gallu cael ei ecsbloetio gan radicaleiddwyr er mwyn eu harwain ar hyd llwybr peryglus.

Bydd radicaleiddwyr yn canfod sbardun ac yn defnyddio pryderon pobl i'w clymu i mewn i'w ffordd nhw o feddwl.

Rydyn ni'n helpu'r person i ddatod ei hun.

Dim ond galwad sydd eisiau.

Rydyn ni yma i'ch helpu chi, a'r person sy'n bwysig i chi, i ddechrau'r sgwrs, fel y gallwn ni ganfod ffordd trwodd gyda'n gilydd.

Mam:

Roedd ein swyddog Prevent yn wych.

Mae fy mab yn gallu bod yn obsesiynol ac roedd angen newid ei ffocws.

Mae e'n ddeallus iawn.

Trefnodd hi bod fy mab yn cael ymweld â gwneuthurwr ceir, gan fod diddordeb ganddo mewn peirianeg.

Cyfeiriad newydd, i'w atal rhag mynd ar hyd y llwybr anghywir.

Ro'n i'n meddwl bod y ffordd roedd hi wir yn ei ddeall e yn anhygoel.

Dyn Ifanc:

Rhoddodd obaith i fi ar gyfer y dyfodol.

Oni bai am y gefnogaeth ges i, dw i ddim yn meddwl y byddwn i yma nawr.

Saba:

Bob blwyddyn, rydyn ni'n helpu miloedd o bobl a allai fod mewn perygl o gael eu radicaleiddio.

Os ydych chi'n poeni bod rhywun rydych chi'n ei nabod mewn perygl o gael ei radicaleiddio, gweithredwch yn gynnar a gofynnwch am gymorth.

Fyddwch chi ddim yn difetha bywydau, ond gallech chi achub rhai.

Ewch i [actearly.uk](http://actearly.uk)